# Versus Arthritis

## Proffil Rôl Gwirfoddolwr

---

## Gwirfoddolwr Hyb Gwybodaeth

**Ymrwymiad Amser:** Hyblyg, fel arfer 4 i 6 awr y mis
**Cyswllt Staff:** Swyddog Rhanbarthol

### Sut y byddwch chi'n gwneud gwahaniaeth

Yn Versus Arthritis, credwn y dylai pawb gael y cymorth a'r wybodaeth y mae ei hangen arnynt i fyw yn dda. Mae ein Hybiau Gwybodaeth yn cefnogi pobl, gan gynnwys pobl ag arthritis, poen cronig, a chyflyrau cyhyrysgerbydol trwy roi'r adnoddau ymarferol ar les iddynt a'u cyfeirio i wasanaethau Versus Arthritis a gwasanaethau perthnasol eraill. Fel Gwirfoddolwr Hyb Gwybodaeth, byddwch chi'n chwarae rôl hanfodol o ran gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl ag arthritis a chyflyrau MSK.

### Beth y byddwch chi'n ei wneud

- Siarad ag aelodau o'r cyhoedd mewn ffordd gyfeillgar a brwdfrydig i godi ymwybyddiaeth o arthritis a gwasanaethau Versus Arthritis
- Mynychu digwyddiadau rhannu gwybodaeth megis grwpiau rhwydwaith cynnwys cymunedau a diwrnodau presenoldeb cymunedol
- Rhannu cyhoeddiadau ac adnoddau priodol gyda phobl
- Ateb ymholiadau cyffredinol a chyfeirio cwestiynau penodol i'r aelod staff perthnasol, yr adnoddau perthnasol neu'r llinell gymorth berthnasol
- Sicrhau bod gweithdrefnau diogelu yn cael eu dilyn

### Ble y byddwch chi'n cynnal y sesiynau

- Sesiwn wyneb yn wyneb mewn lleoliadau cymunedol e.e. neuaddau cymunedol, llyfrgelloedd, ysbytai

### Y math o berson rydym yn chwilio amdano

Nid oes yn rhaid i chi fod yn arbenigwr ond dylech chi fod yn angerddol, yn ddibynadwy ac yn barod i ddysgu!

- Profiad personol o arthritis neu gyflwr hirdymor arall
- Gofalgar, sensitif ac empathig tuag at bobl o bob cefndir
- Sgiliau cyfathrebu da
- Gallu roi adborth adeiladol
- Sgiliau TG da a mynediad rhyngrwyd dibynadwy
- Dibynadwy ac ymrwymedig
- Yn fodlon cwblhau hyfforddiant a gweithio fel rhan o dîm
- 18 oed neu hŷn

**Beth y byddwch chi'n ei gael**

- Hyfforddiant ac anwytho i'ch paratoi ar gyfer eich rôl
- Mynediad i hyfforddiant parhaus, adnoddau a chymorth
- Cyfleodd i gysylltu a rhwydweithio gyda gwirfoddolwyr eraill
- Datblygu a gwella eich sgiliau
- Ad-dalu treuliau rhesymol
- Cyfle i wneud gwahaniaeth i bobl ag arthritis

**Gwybodaeth Bwysig**

Mae Versus Arthritis wedi ymrwymo i gadw plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed yn ddiogel rhag niwed. Fel rhan o'n proses recriwtio, rydym yn dilyn ymarferion recriwtio mwy diogel ac yn cynnal y gwiriadau perthnasol i sicrhau bod ymgeiswyr yn addas i weithio gyda'r grwpiau hyn. Hefyd, bydd angen cwblhau hyfforddiant diogelu ar ddechrau eich cyfnod gwirfoddoli.

Ar gyfer y rôl hon, bydd ein gweithdrefnau recriwtio mwy diogel yn cynnwys:

- Sgwrs anffurfiol i drafod y rôl, dod i'ch adnabod chi a deall eich cymhelliant am wirfoddoli
- Dau eirda
- Ffotograff adnabod

**Barod i ymuno â ni?**

Byddem wrth ein boddau'n clywed gennych chi!

Gadewch i ni **wneud gwahaniaeth gyda'n gilydd**

Diwedd y ddogfen.